2/1

# HIRAETH-GAN

....AR OL....

# Maggie.

UST! Ai gwir fod MAGGIE anwyl,
Oedd mor iach a llon ei gwedd,
Heddyw 'n gorwedd yn Llangadfan
Ac yn huno yn y bedd?
Gwel'd ei lle mor wâg sy'n peri
Imi ofyn lawer pryd,
I ba le yr aeth o'm golwg?
Pa'm yr erys draw cyhyd?

Dysgwyl 'rwyf am glywed adsain
Ei hyfrydlais yn y tŷ;
Dysgwyl gwel'd y wên ddeniadol
Oedd naturiol iddi hi.
Gweithio 'n ddiwyd wnai â'i dwylaw
O foreuddydd hyd brydnawn;
Yn y lleiaf fel y mwyaf
Cefais hi yn ffyddlawn iawn.

Dysgwyl swn ei thraed yn dyfod
O ryw siwrnai 'rwyf bob dydd;
Dysgwyl ddoe, a dysgwyl heddyw,
Yn bryderus iawn a phrudd.
Ond er dysgwyl, ni ddaw MAGGIE
Gyda'i gwyneb gwridcoch llon
A'i cherddediad ysgafn heiny'
I sirioli 'r aelwyd hon.

Eto rywfodd 'rwyf yn meddwl
Ei bod wedi myn'd ar hynt
I Llangadfan neu Llangollen
Fel y byddai 'n arfer gynt,
Er mwyn treulio gwyliau llawen
Gyda'i mham a'r teulu i gyd.
O mor anhawdd sylweddoli
Ei bod wedi myn'd o'r *byd!*

Ymadawodd mor ddisymmwth!
Angeu ddaeth i'w chipio i ffwrdd;
Hi ddiflanodd heb in' wybod,
Ni chawn yma mwy gydgwrdd.
Nid anghofiaf byth mo noson
Ola' 'i chystudd mawr a'i phoen;
*Fflachiai'r fellten, rhuai'r daran,—
Hithau 'n dawel fel yr oen.

"Sut y gallaf eich cydnabod
(Ebai hi yn ddystaw bach)
Am eich gofal mawr a chyson
Droswyf pan yn glaf neu iach?
O! saith mlynedd hapus, hapus
Dreuliais dan eich cronglwyd chwi,"
D'wedais innau yn fy nghalon,
"Dyna daliad llawn i mi!"

*Dygwyddai yr hin fod yn ystormus ar y pryd.

Da oedd gennyf fi gael gweini
Iddi drwy y noson hon;
Ei chymdeithas oedd yn felus,
Hedd deyrnasai dan ei bron;
Holai am y pennill gânwyd
Yn y Capel yn ei chlyw;
Yna canai—clywch yr adsain!
"Llawenhewch, can's da yw Duw."

Ymawyddai am gael golwg
Ar ei chwaer a garai 'n fawr;
"SALLY fach!" dywedai 'n fynych,
Dysgwyl wnai o awr i awr.
O olygfa ge's o'r diwedd!
Pan gyrhaeddodd SALLY 'r tŷ,
Gwel'd y ddwy 'n cofleidio 'u gilydd,
Cyn i MAGGIE 'hedeg fry!

Cyfaill ffyddlawn ddaeth i'w gweled,
Yn ei chlust sibrydodd ef
*Fod yr Iesu 'n byw bob amser
Ac yn eiriol yn y Nef,
A'i fod hefyd yn alluog
I iachâu yn gwbl oll
Bawb sy'n d'od at Dduw am gymod
Drwy ei haeddiant pur digoll.

Pan yn nesu at y terfyn
Hi ga'dd wel'd y Meddyg Rhad,
Ac fe lanwyd yr ystafell
A goleuni'r nefol wlad;
Dyna dd'wedai cyn ymadael,
Cofiaf hyn tra byddwyf byw,
"Pobpeth weithia er daioni
I'r rhai sydd yn caru Duw."

O! mor hardd oedd gwel'd merch ieuanc,
Heb na brys na gofid dwys,
Pan yn ymchwydd yr Iorddonen,
Ar yr Iesu 'n rhoi ei phwys.
Hiraeth! gâd fi 'n llonydd bellach.
Cysur! cymer di ei le.
MAGGIE 'n awr sydd berffaith ddedwydd
Ac ni ddychwel byth o'r Ne'!

Chwi, berth'nasau a chyfeillion;
Ceisiwch am ei phrofiad hi;
Pan yn teithio drwy'r anialwch
Ac yn croesi'r afon ddu.
Os dewiswch Iesu 'n Gyfaill,
Marw fydd yn elw gwiw;
Chwithau dd'wedwch megis hithau
"Llawenhewch, can's da yw Duw."

*Heb. vii. 25.

1901.

MAGLONA LLOYD.

X205249662